Dyfi Valley Health
Iechyd Bro Ddyfi

# Cylchlythyr Tachwedd 2023 a Nadolig Llawen!




Croeso i'n cylchlythyr chwarterol cyn y Nadolig! Fel y bydd y rhan fwyaf ohonoch yn ymwybodol, rydym bellach yn gwbl weithredol yn rhan flaen safle'r Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi newydd. Mae ein rhif ffôn yn aros fel ag yr oedd. Fel cynt, rydym ar agor 5 diwrnod yr wythnos ac ar gau ar benwyth-nosau a gwyliau banc.  Gallwch wastad anfon e-bost atom ar contact.w96011@wales.nhs.uk. Rydym yn gwirio e-byst fel ag y gallwn yn ystod y diwrnod gwaith ond cofiwch beidio byth ag anfon unrhyw beth brys neu hollbwysig rhag ofn y byddwn yn ei fethu.

Gyda'r Nadolig yn agosáu, cofiwch archebu un-rhyw feddyginiaethau rheolaidd mewn da bryd. Rydym yn gofyn am o leiaf 5 diwrnod o rybudd er mwyn cael eich meddyginiaethau'n barod gan nad ydym yn cadw'r holl stoc ar y safle ac efallai y bydd angen amser ychwanegol i'w archebu. Ryd-ym yn dibynnu'n fawr ar eitemau sydd mewn stoc gan ein cyflenwyr. Cofiwch adael **digon o amser** a cadwch mewn cof fod ein tîm o fferyllwyr prysur yn gweithio'n galed i gael eich meddyginiaethau yn barod ar eich cyfer mewn da bryd.

Mae'r ap 'My Health Online' bellach wedi darfod a bod gan fod yr ap new-ydd a gymeradwywyd gan y GIG ac sy'n cael ei redeg gan y GIG, bellach yn fyw. Bydd angen i chi lawrlwytho'r ap https://app.nhs.wales. Bydd yr ap yn caniatáu i chi archebu eich meddygin-iaeth, trefnu apwyntiadau, cysylltu â 111 a rhoi gwaed ac organau - i restru dim ond ychydig o'r opsiynau sydd ar gael trwy'r ap.

**Bu i ni frechu dros 450 o gleifion Iechyd Bro Ddyfi gyda'r Brechiad Covid, gan gefnogi ym-gyrch 2023 a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**



## Ffaith y chwarter -Wyddoch chi...?.

Rydym yn rhan o Gydweithio Gogledd Powys. Mae hyn yn gol-ygu ein bod yn gweithio'n agos gyda Meddygon a Rheolyddion Practis Llanidloes, Y Drenewydd, Y Trallwng, Llanfair Caereinion a Llanfyllin. Rydym yn ffodus  bod cysylltiadau cryf rhwng y tim-au ac mae'r gwahanol Reolyddion Practis yn cyfarfod yn wyth-nosol i drafod materion brys a chefnogi ei gilydd. Rydym yn falch iawn o gefnogi gweithio ar y cyd/cydweithio!

## Ffeithiau a ffigurau ar gyfer Awst 1af i Hydref 31ai

# Rydym wedi cyflawni ...........

2,535 o apwyntiadau wyneb yn wyneb

1,426 o ymgynghoriadau ffôn

332 o apwyntiadau fferyllydd

Cefnogi 315 o fân anafiadau

144 o apwyntiadau ward rhithwir

Cafodd 320 o apwyntiadau eu methu oherwydd nad oedd cleifion yn eu canslo mewn pryd

5,678 o destunau wedi eu hanfon a'u derbyn a 9,533 eitem wedi eu cyflenwi

Derbyniwyd a gwnaethpwyd 22,682 o alwadau ffôn. 60% wedi'u hateb o fewn 2 funud, 2 munud 22 ar gyfartaledd

Derbyniwyd ac atebwyd dros 5,500 o negeseuon e-bost ac 9,000 o eitemau wedi'u cyflenwi

**Croeso i'r Tîm:**

Mae Anna yn Uwch-ymarferydd Nyrsio. Anna hefyd yw ein Nyrs Diabetig newydd yma ar y safle. Pan fydd hi'n amser eich apwyntiad, byddwch yn mynd at Anna ar gyfer eich archwiliadau diabetig, ond cofiwch fod y rhain bellach yn digwydd yn seiliedig ar eich mis geni nawr. Byddwn ni yn cysylltu â chi oni bai ei fod o frys clinigol.

Bydd Holly yn dechrau gyda ni y mis hwn a byddwch yn cwrdd â Holly fel rhan o'n Tîm Llywio Gofal. Croeso i'r ddwy!




**Important dates for your diary….**

Er bod ein clinigau ffliw wedi gorffen yn swyddogol, mae gennym dal stoc o hyd! Cysylltwch â'n tîm i drefnu apwyntiad.

Rydym bellach yn defnyddio system ailalw newydd ar gyfer pob adolygiad arferol fel diabetes ac asthma. Byddwn nawr yn cysylltu â chi i gael eich adolygiad yn ystod eich mis geni.

Mae Kaleidoscope yn yr adeilad bob dydd Gwener i gefnogi defnydd o alcohol.




Dydd Iau 9fed o Rhagfyr fydd diwrnod Siwmper Dolig I Achyb y Plant

**Gwybodaeth gyswllt bwysig**

Cyfeiriad: Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi, Machynlleth, SY20 8EQ

Ffôn: 01654 702 224 E-bost contact.w96011@wales.nhs.uk Gwefan- www.dyfivalleyheath.org